O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 366 (Cy. 61)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Dolau Gwynion, Ger Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012

Gwnaed *14 Chwefror 2012*

Yn dod i rym *20 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei gyflawni arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Dolau Gwynion, Ger Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith," *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw a fydd yn cychwyn am 08.00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd ger Llanymddyfri, yn Sir Gaerfyrddin, sy'n ymestyn o bwynt 640 metr i'r dwyrain o'r lôn fynedfa breifat i Ddolau Gwynion, i'r dwyrain o Lanymddyfri, hyd at bwynt 10 metr i'r dwyrain o'r lôn fynedfa breifat honno;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar gyflymder o fwy na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar gyflymder o fwy na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd yn y fath fodd ag i beri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd, yn ystod cyfnodau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fo cymhwysiad y gwaharddiad a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y'i dangosir.

8. Uchafswm hyd y Gorchymyn hwn fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 14 Chwefror 2012

G R Morgan
G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.